

Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys

Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

Dyddiad yr ymweliad 19 Rhagfyr 2011

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk



Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd	3
2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu	3
2.2 Ward y Bannau, Ward Ymarfer Meddygol Cyffredinol	3
Yr Amgylchedd	3
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	5
Cyfarpar a Storfeydd	6
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	6
2.3 Ward Epynt, Ward Adsefydlu a Gofal Lliniarol	7
Yr Amgylchedd	7
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	8
Cyfarpar a Storfeydd	9
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	9
3. Casgliad	11
4. Camau Nesaf	13

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chleifion ar draws Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra mewn sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr gyfeirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau wedi ei seilio ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

Ymweliad â Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

1.5 Ar 19 Rhagfyr 2011, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, gan gynnal archwiliadau glanweithdra ar hap o'r manau canlynol:

- Ward y Bannau, Ward Ymarfer Meddygol Cyffredinol.
- Ward Epynt, Ward Adsefydlu a Gofal Lliniarol.

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd

2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau cyhoeddus a'r llwybrau cerdded.

2.2 Ward y Bannau, Ward Ymarfer Meddygol Cyffredinol

Yr Amgylchedd

Canfuwyd bod safon gyffredinol y glanweithdra'n dderbyniol.



- Mae'r ward wedi buddsoddi mewn llenni tafladwy. Ystyrir bod hyn yn arfer nodedig oherwydd y gall llenni tafladwy gynorthwyo i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd pan y'u defnyddir ochr yn ochr â chamau eraill i reoli heintiau.



- Archwiliwyd yr holl gomodau a chanfuwyd eu bod yn lân. Fodd bynnag, ceir risg bosibl o halogiad oherwydd y canfuwyd bod y comodau mewn cyflwr gwael a bod angen cael rhai eraill yn eu lle.



- Canfuwyd eitemau ymolchi cymunedol ar y ward. Dylid cael gwared ar y rhain oherwydd y gallent gael eu halogi pe byddai nifer o gleifion yn eu defnyddio.



- Roedd ystafell y nodwyd ei bod yn dŷ bach yn y man aros i gleifion, ond cafwyd gwared ar y toiled ac roedd yr ystafell yn cael ei defnyddio i gadw nifer o wahanol eitemau amhriodol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried defnydd priodol o'r ystafell gan nad yw'r arfer presennol yn dderbyniol.



- Ystafell a ddefnyddir i waredu cynhyrchion gwastraff yw'r ystafell amlbwrpas eitemau budron. Canfuwyd ei bod yn anhrefnus ac anniben, a bod nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddi, megis clustogau pwysedd. Mae'r arfer presennol yn amhriodol a dylid symud yr eitemau oddi yno.



- Canfuwyd hefyd bod cyfarpar domestig, gan gynnwys y troli domestig a hylifau glanhau, yn cael ei storio yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron. Mae'r arfer presennol yn amhriodol gan y defnyddir yr ystafell hon i waredu gwastraff budr. Dylid cadw cyfarpar glanhau domestig ar wahân.

Canfuwyd bod pen pellaf gwelyau'r cleifion a'r byrddau sy'n mynd ar eu traws wedi treulio ac, oherwydd na ellir glanhau pren yn effeithiol, ceir risg bosibl o halogiad. Dylid cael rhai eraill yn lle'r rhain.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd ystafell benodol ar gael ar y ward i gadw dillad gwely a llieiniau. Fodd bynnag, roedd yr ystafell hon hefyd yn cael ei defnyddio i gadw nifer o wahanol eitemau, gan gynnwys trolïau dillad gwely a llieiniau budron. Mae hyn yn annerbyniol oherwydd y dylid gwahanu dillad gwely a llieiniau budron yn briodol a chadw dillad gwely a llieiniau glân mewn man dynodedig lle na cheir unrhyw eitemau amhriodol.



- Roedd rhai o'r biniau ar y ward yn rhydlyd ac wedi achosi difrod i'r llawr. Dylid cael rhai eraill yn eu lle er mwyn osgoi unrhyw ddifrod ychwanegol.

Canfuom fod y ward yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

Cyfarpar a Storfeydd

Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar y ward. Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cyfarpar yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, roedd dyfeisiau ocsigen a sugno yn llychlyd. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei lanhau i safon dderbyniol.



- Roedd arwyddion 'I am clean' wedi'u gosod ar gyfarpar codi a chario, megis teclynnau codi a chymhorthion sefyll, er mwyn dangos eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Roedd hyn yn gweithio'n dda oherwydd y canfuwyd bod yr holl eitemau'n lân.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y 12 mis diwethaf, ac roedd ganddynt wybodaeth dderbyniol ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo a phryd y dylent wisgo menig.

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y ward, ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu harddangos. Dylid arddangos canlyniadau'r archwiliadau a rhoi gwybod i'r staff amdanynt, fel y gellir rhoi sylw i unrhyw faterion a nodwyd mewn modd prydlon.

2.3 Ward Epynt, Ward Adsefydlu a Gofal Lliniarol

Yr Amgylchedd

Roedd y ward hon wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar ac ystyriwyd bod safon y glanweithdra'n dda.



- Canfuwyd bod y coridorau'n lân ac nad oedd eitemau amhriodol ynddynt.



- Archwiliwyd yr holl gomodau a chanfuwyd eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, ceir risg bosibl o halogiad oherwydd y canfuwyd bod y comodau mewn cyflwr gwael a bod angen cael rhai eraill yn eu lle.



- Canfuwyd clustog bwysedd wedi'i difrodi, a oedd yn golygu bod hylifau, baw a bacteria'n gallu treiddio i'r defnydd. Cafwyd gwared ar hon ar adeg ein hymweliad. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod clustogau pwysedd yn cael eu harchwilio fel mater o drefn ac y ceir clustogau newydd yn lle unrhyw rai sydd wedi'u difrodi.



- Canfuwyd bod cornel y wal yn yr ystafell ddomestig wedi'i difrodi. Mae angen rhoi sylw i'r mater hwn cyn iddo waethygu.

Canfuwyd bod pen pellaf gwelyau'r cleifion a'r byrddau sy'n mynd ar eu traws wedi treulio ac, oherwydd na ellir glanhau pren yn effeithiol, ceir risg bosibl o halogiad. Dylid cael rhai eraill yn lle'r rhain.

Roedd yr ystafell amlbwrpas eitemau budron yn anhrefnus ac anniben, ac roedd nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddi, megis clustogau pwysedd. Mae'r arfer presennol yn amhriodol a dylid symud yr eitemau hyn oddi yno.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol ar droli dillad gwely a llieiniau. Roedd dillad gwely a llieiniau budron yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau cod lliw priodol a'u storio'n gywir cyn eu gwaredu.



- Yn gyffredinol, roedd gwastraff yn cael ei drin a'i waredu'n gywir ar y ward, heblaw yn achos un bin lle'r oedd bag gwastraff clinigol wedi'i osod mewn bin domestig. Dylai'r staff sicrhau bod y bagiau gwastraff cywir yn cael eu gosod yn y bin cywir.

2.1 Canfuom fod y ward yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd bod hambyrddau

eitemau miniog yn fudr. Dylai'r staff sicrhau bod hambyrddau eitemau miniog yn cael eu glanhau'n briodol bob tro ar ôl eu defnyddio.

Cyfarpar a Storfeydd

2.2 Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar y ward. Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cyfarpar yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, canfuwyd bod dyfeisiau ocsigen a sugno yn llychlyd ar y ward hon. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei lanhau i safon dderbyniol.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

2.3 Yn gyffredinol, roedd aelodau'r staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y 12 mis diwethaf, ac roedd ganddynt wybodaeth dderbyniol ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo a phryd y dylent wisgo menig.

2.4 Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y ward, ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu harddangos. Dylid arddangos canlyniadau'r archwiliadau a rhoi gwybod i'r staff amdanynt, fel y gellir rhoi sylw i unrhyw faterion a nodwyd mewn modd prydlon.

3. Casgliad

3.1 Ar y cyfan darganfwyd fod y ddwy ward a ymwelwyd a nhw i fod o lefel dda a derbyniol o lanweithdra.

3.2 Fodd bynnag, nodwyd nifer o bryderon yn ystod yr archwiliad glanweithdra ar hap a oedd yn gyffredin i'r ddwy ward yr ymwelwyd â hwy, gan gynnwys:

- Cyflwr gwael y comodau.
- Dyfeisiau ocsigen a sugno llychlyd.
- Mannau amlbwrpas eitemau budron a oedd yn anhrefnus ac anniben.
- Canlyniadau archwiliadau hylendid dwylo heb gael eu harddangos i'r staff.

3.3 Rydym yn pryderu y gallai'r rhain fod yn broblemau sy'n codi trwy'r sefydliad cyfan. O ganlyniad, rydym yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei archwiliad ei hun o bob un o'r wardiau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu er mwyn ei sicrhau ei hun, ac yn cyflwyno adroddiad i AGIC yn nodi canlyniadau'r archwiliad hwn.

4. Camau Nesaf

4.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n eglur pryd a sut y rhoddwyd sylw i'r materion a nodwyd gennym yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy, yn ogystal ag amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r materion yn cael eu hailadrodd mewn manau eraill ar draws y Bwrdd Iechyd.

4.2 Yna bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

4.3 Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, ac yn enwedig y staff ar Ward y Bannau a Ward Epynt, a oedd yn gymwynasgar dros ben drwy gydol yr arolygiad.